# ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gynradd y Pwll**

# Atodiad A

## Rhestr o’r rhai a ymatebodd i’r Ddogfen Ymgynghori

## Ysgol Gynradd y Pwll - rhestr o’r sylwadau a ddaeth i law

| **Rhif** | **Enw** | **Swydd/Categori’r Ymatebwr** |
|---|---|---|
| **1** | Mark Galbraith | Cyngor Gwledig Llanelli |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Atodiad B

**Crynodeb o’r sylwadau a ddaeth i law ar ôl i’r Ddogfen Ymgynghori gael ei chyhoeddi ac ymatebion cysylltiedig yr Awdurdod Lleol**

| CATEGORI | SYLW | YMATEB |
|---|---|---|
| **Rhif 1** | **Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11**<br><br>**Cytuno â'r cynnig**<br>1. Mae'r cyngor yn llwyr gefnogi'r cynnig. | **Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11**<br><br>**Cytuno â'r cynnig**<br>1. Cafodd y gefnogaeth ei nodi. |

# Atodiad C

## YMATEB ESTYN I'R DDOGFEN YMGYNGHORI

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin i newid ystod oedran Ysgol Gynradd y Pwll o 4 – 11 i 3 – 11 cyn gynted ag y bo modd.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Gynradd y Pwll o 4 – 11 i 3 – 11.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu yn unol â rhaglen y cyngor i newid ystod oedran y ddarpariaeth ysgol feithrin. Mae'n debygol y bydd y cynnig presennol yn cynnal darpariaeth addysg a deilliannau disgyblion yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a buddion**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynigiwr yn nodi'n rhesymol bod ymestyn yr ystod oedran yn debygol o sicrhau pontio mwy effeithiol i ddisgyblion o'r rhaglen Dechrau'n Deg i'r ysgol yn dair oed. Mae'n rhoi rhesymwaith clir ar sut mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar blant sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a sut mae'n anelu at wella eu deilliannau wrth baratoi am yr ysgol.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir yr hyn mae'n disgwyl ei gyflawni a'r buddion o'r cynnig. Ymddengys bod y rhain yn rhesymol.

Nid yw'r cynigiwr wedi ystyried anfanteision y cynnig na dewisiadau eraill ar wahân iddo. Nid yw'r cynigiwr wedi nodi bod unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r cynnig ac nid yw felly wedi ystyried unrhyw fesurau i reoli neu liniaru risgiau o'r fath.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar drefniadau teithio disgyblion, na fyddent yn wahanol i'r trefniadau presennol. Mae'r

cynigiwr wedi darparu gwybodaeth am nifer y lleoedd yn yr ysgolion cyfagos a thablau o'r niferoedd disgyblion presennol a'r rhai a ragwelir. Mae'r cynigiwr yn awgrymu na fu unrhyw newid i niferoedd a thueddiadau disgyblion dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi nodi pa effaith, os o gwbl, fydd y wybodaeth hon yn ei chael.

Mae'r cynigiwr wedi nodi na fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal Asesiad addas o'r Effaith ar y Gymuned.

Mae'r cynigiwr yn esbonio bod archwiliad hygyrchedd wedi'i gynnal yn 2009. Yn addas, mae'n cynnwys gwybodaeth am ansawdd yr adeiladau ac yn cyfeirio at gategori cyflwr yr ysgol fel y'i nodir yn Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar ansawdd a safon addysg gan ddefnyddio adroddiad arolygu Estyn a'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion. Mae'r ysgol feithrin wedi gwneud cynnydd da ers ei harolygu yn 2013 ac nid oes angen unrhyw fonitro pellach. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylder yn y cynnig i asesu effaith y ddarpariaeth nac arweinyddiaeth a rheoli. Ni cheir unrhyw dablau cryno o ddata perfformiad.

**<u>Ymateb yr Awdurdod Lleol i Estyn</u>**

**Nid yw’r cynigiwr wedi ystyried anfanteision y cynnig na dewisiadau eraill ar wahân iddo. Nid yw’r cynigiwr wedi nodi bod unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â’r cynnig ac nid yw felly wedi ystyried unrhyw fesurau i reoli neu liniaru risgiau o’r fath.**

Cafodd Risgiau a Gwrthfesurau eu cynnwys yn y Wybodaeth Ychwanegol a anfonwyd at yr holl Randdeiliaid trwy e-bost ar 22/12/15.

**Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar ansawdd a safon addysg gan ddefnyddio adroddiad arolygu Estyn a’r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion. Mae’r ysgol feithrin wedi gwneud cynnydd da ers ei harolygu yn 2013 ac nid oes angen unrhyw fonitro pellach. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylder yn y cynnig i asesu effaith y ddarpariaeth nac arweinyddiaeth a rheoli. Ni cheir unrhyw dablau cryno o ddata perfformiad.**

Bydd cynnwys y cynnig yn atgyfnerthu a gwella’r bartneriaeth bresennol mewn modd effeithiol ac ymarferol. Bydd yr holl bartneriaid yn cael budd o haenau ychwanegol cydweithredu a fydd yn bodoli i gynorthwyo ag anghenion dysgwyr unigol o dair oed ymlaen. Bydd effaith fuddiol a chynnydd y fath gydweithredu’n cael eu monitro a’u hadolygu’n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd partneriaeth gyswllt.

# Atodiad D

## Ymgynghoriad â'r disgyblion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 3 Chwefror 2016

gan

Mrs Mari Owen

Cynghorydd Cyswllt Her

Cyngor Sir Caerfyrddin

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Gwrando ar 'Lais y Dysgwr'

**Ysgol – Pwll**

**Dyddiad: - 3 Chwefror 2016**

**Cynhaliwyd y sesiwn gan Mari Owen**

**Cyfwelwyd â Chyngor yr Ysgol a disgyblion CA2 (8)**

| **1. Hoffech chi fod yn rhan o ysgol fwy sydd â mwy o ddisgyblion?** |
|---|
| **Sylwadau**<br>• Hoffem, byddai mwy o blant yn gwneud yr ysgol yn fwy poblogaidd |

| **2. Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da i'r ysgol ddod yn ysgol 3-11?** |
|---|
| **Sylwadau**<br>• Ydyn. Byddai gan blant pobl yr ardal fwy o gyfleoedd dysgu a mwy o amser i ddysgu yn ystod y flwyddyn ychwanegol.<br>• Byddai'r flwyddyn ychwanegol yn rhoi mwy o amser i'r athrawon addysgu'r pethau mae angen i'r disgyblion eu dysgu.<br>• Byddai datblygu o Ddechrau'n Deg (ar y safle) i ddosbarth meithrin y Pwll yn sicrhau y byddai'r ysgol yn datblygu hefyd, heb golli disgyblion am ddau dymor. Byddai hynny'n beth da. |

| 3. Beth fyddai manteision ysgol 3 – 11? Beth fyddech chi'n edrych ymlaen ato fwyaf? |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Bydden ni'n mwynhau gofalu am y 'rhai bach'<br>• Bydden ni'n gwneud ffrindiau newydd<br>• Bydden ni'n cwrdd â phobl newydd<br>• Bydden ni'n hoffi i'r disgyblion 3 oed wisgo gwisg ysgol hefyd, er mwyn iddyn nhw deimlo eu bod yn perthyn yn Ysgol y Pwll |

| 4. Oes unrhyw anfanteision? Oes unrhyw beth y byddech chi'n poeni amdano? |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Gallai llawer o bobl newydd olygu llawer o sŵn<br>• Byddai'n annifyr gweld y rhai bach yn crio<br>• Bydden ni'n poeni am y mannau chwarae / iardiau gwahanol. Mae angen gwneud y llethr yn fwy diogel neu gael gwared ohoni, oherwydd gallai'r disgyblion gwympo a brifo eu hunain |